Cymharwch yr adnod hon (2 Timotheus 3:16) yn y tri chyfieithiad gwahanol o'r Beibl

'Yr holl ysgrythur sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder.'(William Morgan)

'Y mae pob ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywiro, a disgyblu mewn cyfiawnder.' (Beibl Cymraeg Newydd, 1988)

'Duw sydd wedi ysbrydoli'r ysgrifau sanctaidd hynny i gyd, ac maen nhw'n dysgu beth sy'n wir i ni, yn cywiro syniadau anghywir, yn dangos beth dŷn ni'n ei wneud o'i le, a'n dysgu ni i fyw yn iawn.' (beibl.net)

Exodus 20 :13
Paid llofruddio.

Mathew 5: 21 a 22
"Dych chi wedi clywed beth oedd yn cael ei ddweud wrth bobl ers talwm: 'Paid llofruddio' (ac y bydd pawb sy'n llofruddio rhywun yn euog ac yn cael eu barnu). Ond dw i'n dweud wrthoch chi fod y sawl sy'n gwylltio gyda rhywun arall yn euog ac yn cael ei farnu. Os ydy rhywun yn sarhau ei gyfaill drwy ei alw'n idiot, mae'n atebol i'r Sanhedrin. Ond os bydd rhywun yn dweud 'y diawl dwl' wrth rywun arall, mae mewn perygl o losgi yn nhân uffern.'

Sut mae dysgeidiaeth Iesu yn wahanol i Gyfraith Moses?

Darllen a deall y Beibl

Blwyddyn 1, Rhan 1
Hydref-Tachwedd 2016

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Awgrymwn eich bod yn rhannu'r rhan gyntaf hon o'r cynllun yn 4 sesiwn yn ystod misoedd Hydref a Tachwedd eleni.

Sesiwn A: Gwylio'r ffilm gyfan a thrafod y *Cwestiynau Cyffredinol.* Mae cwestiynau pob sesiwn ar dudalennau 2 a 3.

Sesiwn B: Gwylio ffilm fer 1, a thrafod cwestiynau *Deall a Dehongli'r Beibl.*

Sesiwn C: Gwylio ffilm fer 2, a thrafod cwestiynau *Y Beibl a Chanllawiau Moesol.*

Sesiwn CH: Gwylio ffilm fer 3, a thrafod cwestiynau *Dylanwad y Beibl*.

Noder: Fe fydd y ffilmiau byr ar gael i'w lawr-lwytho o wefan yr Undeb ar ddechrau mis Hydref.

Ar dudalennau 3 a 4 y daflen hon mae nifer o bethau eraill i helpu lenwi sesiwn, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

Beth allwn ni fel eglwys ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?

Cwestiynau i'w trafod

***Sesiwn A*: Cwestiynau Cyffredinol**

1) Pa ddarlun/ddelwedd sy'n disgrifio'r Beibl orau i chi?
2) Pam fod cymaint o bobl yn diystyru'r Beibl heddiw?
3) Os yw'r Beibl yn 'lyfr caeedig', beth sy'n gyfrifol am hynny a sut mae ei newid?
4) Oes 'na rannau o'r Beibl sy'n peri gofid neu benbleth i chi?

***Sesiwn B*: Deall a Dehongli'r Beibl**

1) Ydy beibl.net wedi llwyddo i wneud neges y Beibl yn fwy dealladwy, a pha werth sydd bellach i Feibl William Morgan a'r Beibl Cymraeg Newydd?
2) Beth sydd yn eich helpu chi i ddeall yr hyn sydd gan y Beibl i'w ddweud am ein sefyllfa heddiw?
3) A allwch chi feddwl am enghreifftiau o 'jargon' crefyddol neu 'Beiblaeg?'
4) Petaech yn byw yn un o'r gwledydd tlawd, o dan ormes a newyn, sut y gallai hynny effeithio ar eich darllen a'ch deall o'r Beibl?

***Sesiwn C*: Y Beibl a Chanllawiau Moesol**

1) Beth sy'n penderfynu eich canllawiau moesol chi, a pham?
2) Os nad yw'r Beibl yn siarad yn ***benodol*** ar fater cyfoes, oes yna ffyrdd y gall ein helpu ni i glywed arweiniad Duw ar y mater hwnnw?
3) A ddylem, fel Cristnogion, edrych yn bennaf at y Testament Newydd, yn hytrach nag at yr Hen Destament, am arweiniad moesol?
4) Beth yw'r peryglon o gyfyngu'r Beibl i foesoldeb personol?

***Sesiwn CH*: Dylanwad y Beibl**

1) Disgrifir y Beibl fel 'llyfr sy'n trawsnewid bywydau.' Ydy hyn yn wir yn eich profiad chi?
2) A fu gorbwyslais ar y Beibl fel cyfrwng i drawsnewid yr unigolyn, ar draul bod yn gyfrwng i newid cymdeithas a byd?
3) Ydy eich eglwys chi wedi newid er gwell yn ystod eich cyfnod chi fel aelod ohoni? Os felly, sut? Os na, pam?
4) A allwch feddwl am bobl sydd, dan ddylanwad y Beibl, wedi llwyddo i newid cymdeithas er gwell?

Rhai o'r pethau a ddwedwyd am y Beibl

'Cymar mewn addoliad, cymorth i weddïo, cydymaith ar lwybr ffydd, cyfarwyddyd ar gyfer bywyd, cysur mewn adfyd.'

*'Nid y darnau o'r Beibl nad wyf yn eu deall sy'n fy mhoeni, ond y darnau rwyf **yn** eu deall.'*

'Rhaid dal y Beibl mewn un llaw a'r papur newydd yn y llall.'

'O fewn cloriau'r Beibl mae'r atebion i'r holl broblemau sy'n wynebu dynoliaeth.'

'Rwy'n gwybod bod y Beibl wedi ei ysbrydoli oherwydd mae'n fy ysbrydoli i.'

'Mae gair Duw yn debycach i nofel nag yw i lyfr coginio.'

Am ddeunydd ychwanegol a syniadau am weithgareddau ar gyfer eich grŵp, ewch i wefan yr Undeb,

www.annibynwyr.org